

**Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru
Cofnodion Cyfarfod a Gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2019**

<p>Yn bresennol: Lynne Evans (LE), Tai Gogledd Cymru (Is-gadeirydd)</p> <p>Y Cynghorydd Alun Mummery, CS Ynys Môn Eliw Llyr, CS Ynys Môn Arwel Jones, CS Ynys Môn Arwel Wyn Owen (AO), CS Gwynedd Debbie Lambe, CBS Conwy Abbe Harvey, CS Ddinbych Lisa Pearson, Sir y Fflint Shirley Jones, CBS Wrecsam Phil Forbes, Iechyd (Iechyd Meddwl)</p>	<p>Gwenan Ellis, Grŵp Cynefin Gwynne Jones, Cartrefi Conwy Wendy Hughes, Digartref Ynys Môn Andy Roberts, Clwyd Alyn Glynne Roberts, Iechyd Cyhoeddus Cymru Neal Cockerton, CS y Fflint Rachel Pierce-Jones, Cydlynnydd Datblygiad Rhanbarthol Paul Webb, Llywodraeth Cymru Liz Cook, Llywodraeth Cymru</p>
---	---

		Cam Gweithredu
1.	Cyflwyniadau a Chroeso	
	<p>Cadeiriodd Lynne Evans gyfarfod heddiw yn absenoldeb Enid. Cyflwynwyd y siaradwyr gwadd ychwanegol ar yr agenda, Paul Webb a Liz Cook o Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cafwyd diweddariad ynghylch Aelodaeth y PCRh: mae Siwan Lloyd Williams, cynrychiolydd darparwyr, ar PCRh wedi symud ymlaen i fenter waith newydd ac ni fydd bellach yn cynrychioli darparwyr ar y PCRh. Diolch i Siwan am eich ymrwymiad a'ch ymdrechion yn y swydd hon gan y PCRh ac Is-grŵp y PCRh.</p> <p>Dywedodd Rachel fod Cymorth yn gyfrifol am recriwtio ar gyfer y swydd wag hon ar y PCRh.</p> <p>Ymddiheuriadau: Enid Roberts, CCG (Cadeirydd) Y Cynghorydd Craig ab Iago, CS Gwynedd Sheila Phillips, CS Gwynedd Y Cynghorydd Liz Roberts, CBS Conwy Sam Parry, CBS Conwy Y Cynghorydd Bobby Feeley, CS Ddinbych Katie Owen, CS Ddinbych Y Cynghorydd Bernie Attridge, CS y Fflint Y Cynghorydd Joan Lowe, CBS Wrecsam Jono Clarke, y Gwasanaeth Prawf Gareth Evans, Iechyd</p> <p>Nodyn atgoffa – os ydych yn gwybod na fyddwch yn gallu bod yn bresennol ymlaen llaw rhowch wybod i Rachel mewn da bryd, nid ar y diwrnod cynt na diwrnod y PCRh.</p>	
2.	Cofnodion Blaenorol a Thabl o Gamau Gweithredu	
	Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir yn amodol ar fân newidiadau. Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu.	RPJ
3.	Paul Webb – Diweddariad Llywodraeth Cymru	
	<p>Roedd Paul Webb yn bresennol i roi diweddariad ar y Grant Cymorth Tai, y Fframwaith Canlyniadau a Digwyddiadau Ymgysylltu diweddar ar gyfer y Grant Cymorth Tai.</p> <p>Rhoddodd Paul gyflwyniad byr ynghylch y Grant Cymorth Tai (cyfeirir at hyn yng nghofnodion Tachwedd y PCRh) ac atgoffodd y PCRh ei fod yn weithredol tan ddiwedd cyfnod presennol y Cynulliad. Mae hon yn flwyddyn drosiannol ar gyfer 2019/20, yn</p>	

<p>ystod y cyfnod hwn bydd LIC yn datblygu'r canllawiau ar gyfer y grant hwn ac yn eu paratoi ar y cyd, sef y rheswm dros y digwyddiadau ymgysylltu.</p> <p>Cyfeiriodd Paul yn fras at yr elfen Rhentu Doeth Cymru o'r Grant Cymorth Tai, tua £275,000 sydd wedi'i anelu'n bennaf at weithredu yn erbyn y landlordiaid hynny nad ydynt yn rhan o'r cynllun. O fewn y Grant Cymorth Tai dywedodd Paul fod gorfodi safonau'r sector preifat wedi'i gynnwys yn y grant, a dyna'r rheswm dros gynnwys Rhentu Doeth Cymru'n rhan ohono.</p> <p>O dan Rhentu Doeth Cymru, dywedodd Shirley o Gyngor Wrecsam ei bod wedi cyfarfod â chydweithwyr o Safonau Tai a gofynnodd a fyddai'n bosibl defnyddio peth o'r cyllid i hyrwyddo Rhentu Doeth Cymru. Ni allai Paul gadarnhau a gofynnodd i ni e-bostio er mwyn cael cadarnhad.</p> <p>Hydref – disgwyl Canllaw drafft</p> <p>Wythnos nesaf bydd y Grŵp Llywio'n edrych ar yr holl nodiadau o ddigwyddiadau ymgysylltu'r Grant Cymorth Tai. Dyma syniadau cynnar o'r digwyddiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth i raddau mwy helaeth ar lefel prosiect, lefel cynllunio a bod llais defnyddwyr gwasanaeth yn fwy amlwg • Mae Cefnogi Pobl wedi ceisio darparu trefn lywodraethu drwy Bwyllgorau Rhanbarthol. <i>Eglurodd Paul fod negeseuon cymysg gan y rhanbarthau ar gyfer PCRh, fod rhai wedi gweithio, eraill heb weithio, nid yw pob un wedi bod yn llwyddiannus, rhai'n cwestiynu pam ein bod yn mynd i'r drafferth i wneud gwaith rhanbarthol. Er hynny, mae'r mwyafrif yn dweud bod gwerth i weithio rhanbarthol.</i> • Mae gweithio rhanbarthol o werth ond nid yw PCRh bob amser yn cyflawni hyn. <i>Sut mae gwella hyn? A ddylid newid y drefn?</i> • Mae Cymorth â Thai'n hawdd ei ddiffinio, mae'n anodd diffinio Atal Digartrefedd gan ei fod yn eang iawn o ran yr hyn y gall ei gyflawni. • Sut mae integreiddio PCRh? Y berthynas yn y dyfodol rhwng PCRh a BPRh a Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus? • Mae cymorth yn ymwneud â thai'n parhau i ddarparu prosiectau pwysig <p>Cynhelir cylch arall o ddigwyddiadau budd-ddeiliaid, o bosibl, cynulleidfa â mwy o ffocws. Bydd y rhain yn cael eu cynnal yn yr haf.</p> <p>Cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos nesaf (11 Mawrth 2019)</p> <p>Fframwaith Canlyniadau: Rhannwyd fersiwn ddrafft y Fframwaith Canlyniadau alinio cyllid gan Lywodraeth Cymru'r wythnos ddiwethaf. Bydd Rachel yn ail-anfon hwn at yr holl aelodau.</p> <p>Eglurodd Paul mai mater i awdurdodau lleol fydd darparu'r Canlyniadau i LIC. Maent yn ymwybodol bod angen mawr am wybodaeth reoli, nid LIC fydd yn ei chasglu, ond ALI er mwyn ateb i nodi ai yw ein prosiectau'n cyflawni'r hyn y dylent. Yn y drafodaeth heddiw yn y PCRh dywedwyd y gallai LIC ddweud wrth bob ALI i gasglu beth maent yn ei ddymuno ar gyfer eu hawdurdod a'r ddadl arall oedd cytuno'n Rhanbarthol beth i'w gasglu, er mwyn gallu meincnodi ar sail ranbarthol i weld beth sydd ei angen arnom, ac ati.</p> <p>Bydd yr ALIau yn parhau i gasglu Canlyniadau presennol am y flwyddyn hon ond ni fyddant yn eu cyflwyno i LIC.</p> <p>Hefyd mae'n flwyddyn drosiannol i'r Fframwaith Canlyniadau, bydd grŵp data.</p>	<p>SJ a PW</p> <p>RPJ</p>
--	---

<p>Cyfarfu Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (SPNAB) yr wythnos hon a phrif ganlyniadau'r cyfarfod hwn oedd ehangu ar ei aelodaeth i gynnwys yr holl Grant Cymorth Tai a pharhau gyda'r Grŵp Cyllid ac Ymchwil fydd yn gyfrifol am y Fframwaith Canlyniadau.</p> <p>Mae'r Fframwaith Canlyniadau Drafft ar gyfer y Grant Cymorth Tai wedi'i gynllunio ar sail Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Potensial i bob un o'r 22 ALI bennu eu gwybodaeth reoli eu hunain.</p> <p>Canlyniadau – ystyried cael gwybodaeth o un Llwybr Gwybodaeth a gedwir. Mae DL wedi gofyn i Swyddogion Arweiniol a ydyn nhw eisiau cyfarfod fel rhanbarth i ystyried sut yr ydym yn casglu'r wybodaeth wrth symud ymlaen. Rhaglen ar gyfer yr Is-grŵp nesaf.</p> <p>Gofynion gofynnol / craidd a disgresiwn o ran elfennau eraill. Ystyried yr holl gyfranogwyr grantiau eraill wrth edrych ar hyn.</p> <p>Ychwanegodd Paul y byddai LIC yn awyddus i ni ddweud wrtho beth yr ydym yn ei drafod / penderfynu ei rannu o ran canlyniadau lleol / rhanbarthol gyda LIC.</p> <p>Rachel i gynnwys eitem ar Gysondeb ar gyfer cyfarfod nesaf Is-grŵp y PCRh, o ran pa ddata perfformiad a chanlyniadau yr ydym yn ei gasglu, boed yn lleol, rhanbarthol?</p> <p>Ailddosbarthu: Karl Thomas yn LIC sy'n arwain ar hyn. Ychwanegodd Rachel ei fod wedi bod mewn cysylltiad i nodi dyddiad yn y dyddiadur i gyfarfod gyda swyddogion i drafod y mater hwn gyda Gogledd Cymru.</p> <p>Dywedodd Paul fod Karl yn rheoli'r darn hwn o ymchwil ar yr Ailddosbarthu. Bydd Karl yn edrych ar y sefyllfa bresennol, beth sydd wedi digwydd? Profi fformiwla Aylward? Ydi hi'n dal yn gyfredol? A chasglu barn i wneud penderfyniad ym mis Tachwedd.</p> <p>Rhodddodd Paul gefndir byr i fater ailddosbarthu (sydd yn ei ddiweddariad diwethaf yng nghofnodion Tachwedd y PCRh), codwyd hyn yn argymhellion SAC. Mae'n ddsosbarthiad anghyson ac ni allwn ddweud a yw'n deg i bawb. Rhaid edrych ar hyn. Fodd bynnag, mae Gogledd Cymru'n dadlau ein bod yn cael ein cosbi am wneud ein gwaith yn iawn trwy geisio'r swm uchaf o'r grant yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd i ni.</p> <p>Eglurodd Paul mai'r rheswm dros ailedrych ar ailddosbarthu yw bod defnyddwyr gwasanaeth mewn rhanbarthau eraill yn methu â chael mynediad at wasanaethau a'i bod yn rhaid i LIC gysoni hyn. Mae'n ymwybodol y bydd effeithiau uniongyrchol. Dywedodd Paul y bydd rhan o'r ystyriaeth yn cynnwys beth sy'n deg. Sut allwn ni leihau'r effaith? Ni fydd LIC yn gwneud penderfyniadau heb ddeall yr holl oblygiadau.</p> <p>Ailddosbarthu wedi'i wneud yn erbyn y Grant Cymorth Tai cyfan (ddim yn effeithio ar arian Rhentu Doeth Cymru).</p> <p>'r Maint y bwllch? Dim ond ffigurau Aylward oedd gan Paul i'w dangos - £30 y pen yn erbyn £80 y pen. Rhan o waith Karl yw diweddarau'r ffigurau hyn hyd at heddiw.</p> <p>Gofynnodd y PCRh i LIC ystyried bod prosiectau'n costio mwy yng Ngogledd Cymru, mae llawer o hyfforddiant ar gael yn Ne Cymru'n unig ac mae hynny'n gyfystyr â diwrnod o waith swyddog, ynghyd â theithio a chostau teithio.</p> <p>Canlyniad y drafodaeth ar Ailddosbarthu, Rachel i drefnu cyfarfod ar gyfer aelodau'r PCRh i baratoi achos i ddangos yr effaith. Gwahodd Paul Webb. Cyn y cyfarfod bydd</p>	<p>DL i PW</p> <p>RPJ</p>
---	---

	Rachel yn drafftio papur ar yr effaith.	RPJ
4.	Liz Cook – Diweddariad Llywodraeth Cymru	
	<p>Roedd Liz Cook yn bresennol heddiw i roi diweddariad ar yr agenda Anableddau Dysgu. Eglurodd Liz ei bod wedi dod i'r adran Dai i edrych ar Grant Cymorth Tai ac adroddiad SAC oedd yn tynnu sylw at faterion ar gyfer grŵp cleientiaid Anableddau Dysgu.</p> <p>Yr argymhelliad yn adroddiad SAC oedd bod LIC yn gweithio gyda'r PCRh ar bryderon cymhwysedd Anableddau Dysgu. Yn sgil y llynedd pan oedd y rhan fwyaf o amser LIC yn cael ei neilltuo i EIPS, eglurodd Liz ei fod bellach yn cael sylw, a bod angen i LIC roi ymateb i SAC. Eglurodd Liz hefyd, gan fod y Grant Cymorth Tai yn berthnasol i'r flwyddyn bresennol fod mater Anableddau Dysgu'n ehangach. Mae LIC yn ystyried a oes angen i arian Anableddau Dysgu fynd yn uniongyrchol i Wasanaethau Cymdeithasol a chael ei ariannu yn y modd hwnnw.</p> <p>Bydd Liz yn cysylltu ag awdurdodau lleol i weld pa gyllid sydd ar gael, o ble mae'n dod ac a oes unrhyw wahaniaethau rhwng dyraniadau awdurdodau lleol ar gyfer Anableddau Dysgu . Dyna pam yr oedd Liz yn bresennol heddiw yn ogystal ag yn Is-grŵp y PCRh yn Chwefror.</p> <p>Nod LIC yw rhoi ymateb i SAC erbyn yr haf eleni. Ychwanegodd Liz y bydd LIC yn ystyried symud y cyllid yn hytrach na bod ALI yn gwneud hynny, os mai dyna fydd y dull y cytunir arno ar gyfer gweithredu Anableddau Dysgu. Cyflwynir penderfyniad i'r Gweinidog ym mis Tachwedd. Cyd-fynd ag Ailddosbarthu.</p> <p>Dadleuwyd ynghylch casglu cymaint â phosib' o gyllid ar gyfer agenda Anableddau Dysgu. Cyn 2012 roedd y rhain yn wasanaethau cymwys, gofynnwyd i ni wneud y mwyaf o'r cyllid, a gwnaethpwyd hynny. Ychwanegodd Paul nad oeddem, ar y pryd, yn deall yr hyn a wyddwn bellach am Gymorth â Thai ac a oeddem yn sylweddoli ein bod yn sybsideiddio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol?</p> <p>Gofynnodd y PCRh beth fydd y penderfyniad a fydd yn golygi bod cyfnod trosiannol hir yn cael ei ganiatáu.</p> <p>Eglurodd Liz fod LIC yn ystyried trosglwyddo'r arian i Wasanaethau Cymdeithasol heb gymryd yr arian oddi wrth y Darparwr.</p> <p>Mae llawer o elfennau gwleidyddol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hystyried.</p> <p>Eglurodd Rachel fod y gwaith ar elfennau anghymwys a gwblhawyd gan y PCRh yn 2014 ar gyfer Anableddau Dysgu wrthi'n cael ei diweddarau gan swyddogion arweiniol ac y bydd yn cael ei anfon at Liz ddechrau Ebrill er gwybodaeth.</p>	RPJ
5.	Diweddariad Cynllun Gwaith	
	<p>Rhoddodd Rachel ddiweddariad ar y meysydd blaenoriaeth o fewn Cynllun Strategol Rhanbarthol 2017-20 a lle'r ydym wedi cyrraedd. Dyma'r pum maes blaenoriaeth:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Anableddau Dysgu 2. Rhai sy'n Gadael Carchar 3. Iechyd Meddwl 4. Cam-drin Domestig 5. Rhai sy'n Cysgu Allan / Tai'n Gyntaf <p>Anableddau Dysgu: Cwblhawyd y cynllun gwaith ar gyfer hwn yn 2017. Ailedrych ar waith Liz Cook yn GW, wrthi'n diweddarau'r papur ar gyfer hyn.</p>	

	<p>Rhai sy'n Gadael Carchar: Rachel i wahodd Swyddogion Ailsefydlu Carcharorion i Is-grŵp y PCRh yn y dyfodol a Jono Clarke o'r Gwasanaeth Prawf. Ailedrych ar argymhellion eraill o'r papur ymchwil yn y cyfarfod hwn.</p> <p>Iechyd Meddwl: Rydym wedi cyflawni'r hyn y bwriadwyd ei wneud i nodi bylchau hyfforddiant i BPIBC weithredu arnynt.</p> <p>Cam-drin Domestig: Dyrannwyd cyllid gan bob ALI i wasanaeth IDVA rhanbarthol, yn dibynnu ar gadarnhad terfynol gan rai Grwpiau Cynllunio ALI.</p> <p>Daduno Cymorth i Ferched – Conwy a Wrecsam wedi cymeradwyo newid y cytundeb i'r Uned Diogelwch Trais Teuluol (DASU).</p> <p>Rhai sy'n Cysgu Allan / Tai'n Gyntaf: Cyfle yma i wneud cysylltiadau ag agenda Rhai sy'n Cysgu Allan o fewn y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol, e.e.: <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo'r ap StreetLink • Newid agweddau at stereoteipiau • Setiau data yn seiliedig ar pam fod pobl yn gwrthod llety • Deall angen yn well. </p> <p>Darn arall o waith yn dilyn cyfarfod heddiw – Ailddosbarthu.</p>	RPJ
6.	<p>Dadansoddi holiadur adborth defnyddwyr gwasanaeth</p> <p>Rhannwyd Papur 2 gyda'r PCRh, rhannwyd y dadansoddiad hwn hefyd gyda LIC a Cymorth.</p> <p>Aeth Rachel drwy'r dadansoddiad, gan bwysleisio mai ciplun oedd hwn am y mis cyntaf, a bod yr holiadur yn dal yn weithredol.</p> <p>Eglurodd Rachel fod y ffaith bod 140 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cwblhau'r holiadur yn dangos bod awydd i roi adborth am y math hwn o waith yn hytrach nag ymateb i ymgynghoriad ar Gynllun Strategaeth Ranbarthol. Mae hwn yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Bydd yr holiadur yn newid ychydig er mwyn ychwanegu cwestiwn dewisol pwy yw eich Darparwr, gan fod y blwch "unrhyw sylwadau eraill" yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i ganmol eu Darparwr. Hefyd bydd yr Holiadur yn cynnwys y cwestiwn ar ganlyniadau teimlo'n ddiogel ac ychwanegu cwestiwn i ategu'r cwestiwn ar ganlyniadau Gwaith Cyflogedig ac i ni ofyn "Oeddech chi eisiau cefnogaeth ar gyfer hyn".</p> <p>Byddai 97% yn argymhell y gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn. Darllenodd Rachel ambell eirida a rhoddodd sylw arbennig i'r ymatebion i "Lle fydddech chi heb y gwasanaeth hwn?" gan fod hon yn dystiolaeth rymus i gefnogi'r angen am raglen Cefnogi Pobl. O blith 102:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dywedodd 8 y byddent yn y carchar • dywedodd 39 y byddent ar y stryd • dywedodd 10 y byddent yn cysgu ar soffas pobl eraill • dywedodd 4 y byddent mewn gwely a brecwast • A dywedodd 15 y byddent yn farw. <p>Cafodd y dadansoddiad ei werthfawrogi gan y PCRh. Cynigiodd Paul rai sylwadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n dda ein bod wedi gwneud hyn • Mae'n rhoi dadansoddiad da o waith Gogledd Cymru 	

	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n adlewyrchu beth sy'n deillio o ddigwyddiadau defnyddwyr gwasanaeth Cymorth Cadarnhau bod Cefnogi Pobl yn amhrisiadwy Yng nghyd-destun y Grant Plant a Chymunedau mae'n cynnwys cyllid ar gyfer "mynediad at waith", a dylai'r grantiau hyn alinio. A fyddai'n bosibl i ni wneud mwy yma? Angen dangos sut yr ydym yn paratoi cynllun i symud ymlaen i hyfforddiant / addysg? Angen rhoi cyhoeddusrwydd ehangach. <p>Sylwadau'r PCRh:</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth mae Cefnogi Pobl yn ei wneud? Mae hyn yn ateb y cwestiwn Cytuno bod angen ei ddsbarthu'n ehangach Rhestru'r darparwyr dan sylw Ychwanegu'r cwestiwn "pa feysydd allwn ni eu gwella" <p>Allai holl aelodau'r PCRh ddsbarthu hwn yn ehangach?</p>	<p>RPJ</p> <p>PAWB</p>
7.	Cynigion – Strwythurau ac Aelodaeth y PCRh yn y dyfodol	
	<p>Rhannwyd Papur 3 gyda'r cofnodion. Roedd hwn yn amlinellu cynnig i wneud newidiadau i aelodaeth y PCRh. Fodd bynnag, y canlyniad y cytunwyd arno ar ôl trafod oedd gwahodd swyddogion arweiniol Atal Digartrefedd i gyfarfodydd y PCRh.</p> <p>Sylwadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithio rhanbarthol ar draws y Grant Cymorth Tai – mae'r Grant Plant a Chymunedau'n canolbwyntio ar faterion lleol ac yn symud oddi wrth y ffocws rhanbarthol Mae'r ffocws wedi newid yn lleol wrth weithio gyda chydweithwyr y Grant Plant a Chymunedau Mae'r canllaw presennol yn berthnasol Heriau – sut allwn ni gael llais ar gynnwys y Grant Cymorth Tai a sut i ddechrau a gweithio ar waith rhanbarthol ar gyfer y Grant Cymorth Tai Strategaethau Digartrefedd cyfredol a LCP – 2021 Beth fyddai'n ei olygu i gyfuno'r ddwy ddogfen Gellir gweithio'n rhanbarthol i sicrhau canlyniadau Cyfleoedd i weithio'n rhanbarthol gyda'r strategaeth ddigartrefedd Cysylltu â'r Grant Plant a Chymunedau pan fydd yr argyfwng drosodd a symud i gyflogaeth, ac ati Beth fyddai cynnwys y strategaeth ddigartrefedd a'r strategaeth Cefnogi Pobl <p>Awgrymodd Arwel, Cyngor Gwynedd, ein bod yn ehangu'r aelodaeth yn hytrach na newid y ddau grŵp.</p> <p>Cytunwyd i ehangu'r grwpiau.</p> <p>Rachel i drefnu i wahodd aelodau ychwanegol i gyfarfod Gorffennaf y PCRh.</p>	<p>RPJ</p>
8.	Cynllun Gwariant Gogledd Cymru	
	Disgwyl cynllun gwariant gan LIC i ddod â chynllun gwariant Gogledd Cymru ynghyd, a'i ailraglennu.	
9.	Eitemau	
	Diweddariad Tai'n Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych	
	Bydd y rheolwr a recriwtiwyd, Susan Stephenson, yn cyfweld gweithwyr cymorth yn fuan.	

	Awdurdodau lleol yn paratoi ar gyfer y Grant Cymorth Tai	
	Ni chafodd Rachel ddiweddariad gan bob ALI er mwyn rhoi papur rhanbarthol at ei gilydd. Atgoffodd Paul y pwyllgor fod ALI wedi anfon eu cynlluniau darparu i LIC – a ellid defnyddio'r rhain? Rachel i ail-drefnu ar gyfer Gorffennaf.	RPJ
	Fideo Astudiaeth Achos	
	Darparodd Andy Roberts o Clwyd Alyn fideo i'r PCRh heddiw yn dangos y gwaith y mae ResFest yn ei wneud bob blwyddyn ac wedi bod yn ei wneud ers 2008. Mae hwn yn ddigwyddiad ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth yn unig ac mae thema benodol i'r digwyddiad bob blwyddyn (h.y. Cyffuriau ac Alcohol, Lle, ac ati)	
	Rachel i anfon y fideo at bawb.	RPJ
	Rachel i e-bostio a dod o hyd i fideo defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer y PCRh nesaf.	RPJ
	O dan yr eitem hon, rhannodd Lynne Evans ymddangosiad diweddar Digartref ar BBC Cymru neithiwr, ffilm ddogfen 15 munud o'r enw Hostel Sweet Hostel gyda defnyddwyr gwasanaeth yn rhannu eu straeon a'r stigma y maent wedi ei brofi. Bydd Digartref hefyd ar Comic Relief ddydd Gwener nesaf.	
	Rachel i anfon dolen gyswllt i Hostel Sweet Hostel. Mae ar gael ar yr iPlayer hefyd.	RPJ
	Cyfeiriodd Arwel hefyd at 'Alfie's Army', roedd Gareth Thomas cyn chwaraewr rygbi dros Gymru wedi dewis Digartref allan o 100 o ddarparwyr, a'r dasg oedd cael hyd i bobl ifanc heriol i gwblhau Hanner Marathon Caerdydd, a gwblhawyd yn llwyddiannus gan bawb, aeth dau ymlaen i ymuno â chlybiau rhedeg.	
10.	Unrhyw Fater Arall	
	Ni chodwyd unrhyw fater arall.	
	Dyddiad y cyfarfod nesaf – 12 Gorffennaf 2019 10:00am – 12:00pm Porth Eirias, y Promenâd, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8HH	

Tabl camau gweithredu

	Camau	Pwy	Statws
1	Diwygio Cofnodion blaenorol – newid enwau darparwyr Siwan Lloyd Williams a Gwenan Ellis, a chywiro - enw Debbie Lambe.	RPJ	Cwblhawyd
2	Ail-anfon y Fframwaith Canlyniadau Drafft	RPJ	Cwblhawyd
3	Paul Webb i gadarnhau a ellir gwario cyllid Rhentu Doeth Cymru ar hyrwyddo Rhentu Doeth Cymru? Rachel i e-bostio to Paul Webb	RPJ	Awaiting response form Paul
4	Cyfarfod swyddogion arweiniol Cefnogi Pobl - i drafod y Fframwaith Canlyniadau. Debbie Lambe i roi gwybod i Paul Webb beth oedd y canlyniad ar gyfer casglu data?	DL	
5	Agenda Cysondeb ar gyfer Is-grŵp nesaf y PCRh	RPJ	Cwblhawyd
	Trefnu cyfarfod o'r PCRh ar gyfer mater Ailddosbarthu	RPJ	
	Cyn y cyfarfod ar Ailddosbarthu Rachel i ddrafftio papur ar effaith ailddosbarthu	RPJ	
8	Swyddogion Arweiniol i ddiweddarau papur 2014 ynghylch Anableddau Dysgu a Diffyg Cymhwysedd	RPJ	Request has been sent
9	Rachel i anfon papur wedi'i ddiweddarau at Liz Cook ar gyfer Anableddau Dysgu	RPJ	
10	Rachel i wahodd Swyddogion Ailsefydlu Carcharorion i is-grŵp yn y dyfodol a Jono Clarke	RPJ	
11	Holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth – ychwanegu: "Pa feysydd allwn ni eu gwella?"	RPJ	Cwblhawyd
12	Gwahodd Swyddogion Arweiniol Digartrefedd i'r PCRh, dechrau o fis Gorffennaf	RPJ	Cwblhawyd Awaiting response from Wrexham
13	Anfon fideo ResFest	RPJ	Cwblhawyd
14	Rachel i e-bostio i ddod o hyd i fideo defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer cyfarfod nesaf y PCRh	RPJ	Cwblhawyd
15	Anfon dolen gyswllt at aelodau'r PCRh ar gyfer ffilm Hostel Sweet Hostel	RPJ	Cwblhawyd